Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Diwygio Rheolau Sefydlog: Newidiadau amrywiol

Mawrth 2023

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell diwygiadau amrywiol i Reol Sefydlog 6 yn Gymraeg, a Rheolau Sefydlog 8, 9, 26, 26A, 26B a 26C yn y ddwy iaith.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio’r Rheolau Sefydlog fel y’u nodir yn Atodiad A.

# Cynnwys

1. Y cefndir ........ 3
2. Penderfyniad ........ 3
Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog a nodiadau esboniadol ........ 4
Atodiad B: Rheolau Sefydlog 6, 8, 9, 26, 26A, 26B a 26C fel y'u diwygiwyd ........ 10

# 1. Y cefndir

**1.** Yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2023, trafododd y Pwyllgor Busnes newidiadau amrywiol i'r Rheolau Sefydlog sydd wedi eu nodi.

**2.** Mae Rheol Sefydlog 6 wedi ei diwygio yn Gymraeg i newid yr enw ar gyfer Cadeirydd Gweithredol y Cyfarfod Llawn, er mwyn gwahaniaethu rhwng y rôl hon â Chadeirydd Dros Dro yn y Cyfarfod Llawn. Yr enw newydd yn Gymraeg yw 'Cadeirydd Gweithredol'. Nid oes newid i'r rôl ei hun na'r teitl yn Saesneg ('*Acting Chair*').

**3.** Mae Rheolau Sefydlog 8, 9, 26, 26A, 26B a 26C wedi eu diwygio yn dilyn esgyniad Ei Fawrhydi y Brenin i'r orsedd.

**4.** Ceir esboniad o bob newid arfaethedig yn Atodiad A.

# 2. Penderfyniad

**5.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol ar y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog ar 21 Mawrth 2023. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig yn Atodiad B.

# Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog a nodiadau esboniadol

| **RHEOL SEFYDLOG 6 – Y Llywydd a'r Dirprwy** | |
|---|---|
| **Cadeirydd Gweithredol~~Dros Dro~~ y Cyfarfodydd Llawn** | **Diwygio'r Pennawd**<br>Rhoi 'Gweithredol' yn lle 'Dros Dro'.<br>Nid yw'r Rheol Sefydlog yn newid yn Saesneg. |
| 6.23A. Caiff y Senedd ethol Cadeirydd Gweithredol~~Dros Dro~~ at ddibenion cadeirio cyfarfodydd llawn. | Rhoi 'Gweithredol' yn lle 'Dros Dro'.<br>Nid yw'r Rheol Sefydlog yn newid yn Saesneg. |
| 6.23B. O ran swyddogaethau'r Llywydd, dim ond y swyddogaethau a ganlyn y caiff Cadeirydd Gweithredol~~Dros Dro~~ a etholir o dan Reol Sefydlog 6.23A ymgymryd â hwy:<br>(i) swyddogaethau mewn perthynas â busnes yn y cyfarfodydd llawn o dan Reol Sefydlog 12;<br>(ii) swyddogaethau mewn perthynas â threfn yn y cyfarfodydd llawn o dan Reol Sefydlog 13;<br>(iii) unrhyw swyddogaethau eraill mewn perthynas â busnes yn y cyfarfodydd llawn. | Rhoi 'Gweithredol' yn lle 'Dros Dro'.<br>Nid yw'r Rheol Sefydlog yn newid yn Saesneg. |
| 6.23C. Dim ond ar ôl i'r Clerc hysbysu'r Senedd fod y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn methu â chadeirio | Rhoi 'Gweithredol' yn lle 'Dros Dro'. |

| **RHEOL SEFYDLOG 6 – Y Llywydd a’r Dirprwy** | | |
|---|---|---|
| | cyfarfodydd llawn y caiff Cadeirydd <u>Gweithredol</u>~~Dros Dro~~ ymgymryd â’r swyddogaethau a bennir o dan Reol Sefydlog 6.23B. | Nid yw’r Rheol Sefydlog yn newid yn Saesneg. |
| 6.23D | Bydd Cadeirydd <u>Gweithredol</u>~~Dros Dro~~ yn peidio ag arfer y swyddogaethau hyn pan fydd y Clerc yn hysbysu'r Senedd fod naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn gallu cadeirio cyfarfodydd llawn | Rhoi 'Gweithredol' yn lle 'Dros Dro'.<br><br>Nid yw’r Rheol Sefydlog yn newid yn Saesneg. |

| **RHEOL SEFYDLOG 8 – Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru** | | |
|---|---|---|
| **Ymddiswyddiad etc. Prif Weinidog Cymru neu Aelod arall o’r Llywodraeth** | | **Cadw'r pennawd** |
| 8.4 | Pan hysbysir y Llywydd fod Prif Weinidog Cymru wedi cynnig ei ymddiswyddiad i’w <u>Fawrhydi</u>~~Mawrhydi~~, os caiff yr ymddiswyddiad ei dderbyn, rhaid i’r Llywydd hysbysu’r Senedd. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Newid y cyfeiriad at 'Ei Mawrhydi' i 'Ei Fawrhydi'. |

| **RHEOL SEFYDLOG 9 – Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru** | | |
|---|---|---|
| **Penodi** | | **Cadw'r pennawd** |
| 9.1 | Rhaid i gytundeb y Senedd ag argymhelliad Prif Weinidog Cymru i'w Fawrhydi~~Mawrhydi~~ ynglŷn â pherson i'w benodi'n Gwnsler Cyffredinol gael ei ddynodi drwy benderfyniad gan y Senedd. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Newid y cyfeiriad at 'Ei Mawrhydi' i 'Ei Fawrhydi'. |
| **Diswyddo neu Ymddiswyddo** | | **Cadw'r pennawd** |
| 9.5 | Rhaid i gytundeb y Senedd ag argymhelliad Prif Weinidog Cymru i'w Fawrhydi~~Mawrhydi~~ y dylid diswyddo person o swydd y Cwnsler Cyffredinol gael ei ddynodi drwy benderfyniad gan y Senedd. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Newid y cyfeiriad at 'Ei Mawrhydi' i 'Ei Fawrhydi'. |
| 9.6 | Rhaid i unrhyw gynnig ar gyfer penderfyniad o'r fath gael ei wneud gan Brif Weinidog Cymru. Ni chaniateir cyflwyno gwelliant i'r cynnig. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth |
| 9.7 | Pan hysbysir y Llywydd fod y Cwnsler Cyffredinol wedi cynnig ei ymddiswyddiad i'w Fawrhydi~~Mawrhydi~~, os caiff yr ymddiswyddiad ei dderbyn, rhaid i'r Llywydd hysbysu'r Senedd. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Newid y cyfeiriad at 'Ei Mawrhydi' i 'Ei Fawrhydi'. |
| 9.8 | Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn peidio â dal ei swydd os enwebir Aelod i'w benodi'n Brif Weinidog Cymru o dan adran 47(1) o'r Ddeddf. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth |

| **RHEOL SEFYDLOG 26 – Deddfau'r Senedd** | |
|---|---|
| **Cydsyniad Ei Fawrhydi~~Mawrhydi~~ a Dug Cernyw** | **Diwygio'r Pennawd**<br>Newid y cyfeiriad at 'Ei Mawrhydi' i 'Ei Fawrhydi'. |
| 26.67 Os yw Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth, neu'n cael ei ddiwygio i gynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai, pe bai'n cael ei chynnwys mewn Bil ar gyfer Deddf Senedd y Deyrnas Unedig, yn gofyn cydsyniad Ei Fawrhydi~~Mawrhydi~~ neu gydsyniad Dug Cernyw, rhaid i'r Senedd beidio â thrafod y cwestiwn a ddylai'r Bil gael ei basio (neu ei gymeradwyo yn dilyn y Cyfnod Ailystyried) nes bod y cydsyniad hwnnw ar gyfer y ddarpariaeth honno wedi'i ddynodi gan aelod o'r llywodraeth mewn cyfarfod o'r Senedd. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br><br>Newid y cyfeiriad at 'Ei Mawrhydi' i 'Ei Fawrhydi'. |

| **RHEOL SEFYDLOG 26A – Deddfau Preifat y Senedd** | |
|---|---|
| **Cydsyniad Ei Fawrhydi~~Mawrhydi~~ a Dug Cernyw** | **Diwygio'r Pennawd**<br>Newid y cyfeiriad at 'Ei Mawrhydi' i 'Ei Fawrhydi'. |
| 26A.133 Os yw Bil Preifat yn cynnwys darpariaeth, neu'n cael ei ddiwygio i gynnwys unrhyw ddarpariaeth a | Diwygio'r Rheol Sefydlog |

| **RHEOL SEFYDLOG 26A – Deddfau Preifat y Senedd** | |
|---|---|
| fyddai, pe bai’r Bil Preifat yn Fil ar gyfer Deddf Senedd y Deyrnas Unedig, yn gofyn cydsyniad Ei Fawrhydi~~Mawrhydi~~ neu gydsyniad Dug Cernyw, rhaid i’r Senedd beidio â thrafod y cwestiwn a ddylai’r Bil Preifat gael ei basio (neu ei gymeradwyo yn dilyn y Cyfnod Ailystyried) oni bai bod y cydsyniad hwnnw ar gyfer y ddarpariaeth honno wedi’i ddynodi gan aelod o’r llywodraeth mewn cyfarfod o’r Senedd. | Newid y cyfeiriad at 'Ei Mawrhydi' i 'Ei Fawrhydi'. |

| **RHEOL SEFYDLOG 26B - Deddfau Hybrid y Senedd** | |
|---|---|
| **Cydsyniad Ei Fawrhydi~~Mawrhydi~~ a Dug Cernyw** | **Diwygio'r Pennawd**<br>Newid y cyfeiriad at 'Ei Mawrhydi' i 'Ei Fawrhydi'. |
| 26B.128 Os yw Bil Hybrid yn cynnwys darpariaeth, neu’n cael ei ddiwygio i gynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai, pe bai’r Bil Hybrid yn Fil ar gyfer Deddf Senedd y Deyrnas Unedig, yn gofyn cydsyniad Ei Fawrhydi~~Mawrhydi~~ neu gydsyniad Dug Cernyw, rhaid i’r Senedd beidio â thrafod y cwestiwn a ddylai’r Bil Hybrid gael ei basio (neu ei gymeradwyo | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br><br>Newid y cyfeiriad at 'Ei Mawrhydi' i 'Ei Fawrhydi'. |

| **RHEOL SEFYDLOG 26B - Deddfau Hybrid y Senedd** | |
|---|---|
| yn dilyn y Cyfnod Ailystyried) oni bai bod y cydsyniad hwnnw ar gyfer y ddarpariaeth honno wedi'i ddynodi gan aelod o'r llywodraeth mewn cyfarfod o'r Senedd. | |

| **RHEOL SEFYDLOG 26C – Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd** | |
|---|---|
| **Cydsyniad Ei <u>Fawrhydi</u>~~Mawrhydi~~ a Dug Cernyw** | **Diwygio'r Pennawd**<br>Newid y cyfeiriad at 'Ei Mawrhydi' i 'Ei Fawrhydi'. |
| 26C.88 Os yw Bil Cydgrynhoi yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth, neu'n cael ei ddiwygio i gynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai, pe bai'n cael ei chynnwys mewn Bil ar gyfer Deddf Senedd y Deyrnas Unedig, yn gofyn cydsyniad Ei <u>Fawrhydi</u>~~Mawrhydi~~ neu gydsyniad Dug Cernyw, rhaid i'r Senedd beidio â thrafod y cwestiwn a ddylai'r Bil Cydgrynhoi gael ei basio (neu ei gymeradwyo yn dilyn y Cyfnod Ailystyried) nes bod y cydsyniad hwnnw ar gyfer y ddarpariaeth honno wedi'i ddynodi gan aelod o'r Llywodraeth mewn cyfarfod o'r Senedd. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br><br>Newid y cyfeiriad at 'Ei Mawrhydi' i 'Ei Fawrhydi'. |

# Atodiad B: Rheolau Sefydlog 6, 8, 9, 26, 26A, 26B a 26C fel y'u diwygiwyd

## RHEOL SEFYDLOG 6 – Y Llywydd a'r Dirprwy

### Cadeirydd Gweithredol y Cyfarfodydd Llawn

6.23A Caiff y Senedd ethol Cadeirydd Gweithredol at ddibenion cadeirio cyfarfodydd llawn.

6.23B O ran swyddogaethau'r Llywydd, dim ond y swyddogaethau a ganlyn y caiff Cadeirydd Gweithredol a etholir o dan Reol Sefydlog 6.23A ymgymryd â hwy:

(i) swyddogaethau mewn perthynas â busnes yn y cyfarfodydd llawn o dan Reol Sefydlog 12;

(ii) swyddogaethau mewn perthynas â threfn yn y cyfarfodydd llawn o dan Reol Sefydlog 13;

(iii) unrhyw swyddogaethau eraill mewn perthynas â busnes yn y cyfarfodydd llawn.

6.23C Dim ond ar ôl i'r Clerc hysbysu'r Senedd fod y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn methu â chadeirio cyfarfodydd llawn y caiff Cadeirydd Gweithredol ymgymryd â'r swyddogaethau a bennir o dan Reol Sefydlog 6.23B.

6.23D Bydd Cadeirydd Gweithredol yn peidio ag arfer y swyddogaethau hyn pan fydd y Clerc yn hysbysu'r Senedd fod naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn gallu cadeirio cyfarfodydd llawn.

## RHEOL SEFYDLOG 8 – Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru

### Ymddiswyddiad etc. Prif Weinidog Cymru neu Aelod arall o'r Llywodraeth

8.4 Pan hysbysir y Llywydd fod Prif Weinidog Cymru wedi cynnig ei ymddiswyddiad i'w Fawrhydi, os caiff yr ymddiswyddiad ei dderbyn, rhaid i'r Llywydd hysbysu'r Senedd.

## RHEOL SEFYDLOG 9 – Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru

### Penodi

9.1 Rhaid i gytundeb y Senedd ag argymhelliad Prif Weinidog Cymru i'w Fawrhydi ynglŷn â pherson i'w benodi'n Gwnsler Cyffredinol gael ei ddynodi drwy benderfyniad gan y Senedd.

### Diswyddo neu Ymddiswyddo

9.5 Rhaid i gytundeb y Senedd ag argymhelliad Prif Weinidog Cymru i'w Fawrhydi y dylid diswyddo person o swydd y Cwnsler Cyffredinol gael ei ddynodi drwy benderfyniad gan y Senedd.

9.6 Rhaid i unrhyw gynnig ar gyfer penderfyniad o'r fath gael ei wneud gan Brif Weinidog Cymru. Ni chaniateir cyflwyno gwelliant i'r cynnig.

9.7 Pan hysbysir y Llywydd fod y Cwnsler Cyffredinol wedi cynnig ei ymddiswyddiad i'w Fawrhydi, os caiff yr ymddiswyddiad ei dderbyn, rhaid i'r Llywydd hysbysu'r Senedd.

9.8 Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn peidio â dal ei swydd os enwebir Aelod i'w benodi'n Brif Weinidog Cymru o dan adran 47(1) o'r Ddeddf.

## RHEOL SEFYDLOG 26 – Deddfau'r Senedd

### Cydsyniad Ei Fawrhydi a Dug Cernyw

26.67 Os yw Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth, neu'n cael ei ddiwygio i gynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai, pe bai'n cael ei chynnwys mewn Bil ar gyfer Deddf Senedd y Deyrnas Unedig, yn gofyn cydsyniad Ei Fawrhydi neu gydsyniad Dug Cernyw, rhaid i'r Senedd beidio â thrafod y cwestiwn a ddylai'r Bil gael ei basio (neu ei gymeradwyo yn dilyn y Cyfnod Ailystyried) nes bod y cydsyniad hwnnw ar gyfer y ddarpariaeth honno wedi'i ddynodi gan aelod o'r llywodraeth mewn cyfarfod o'r Senedd.

## RHEOL SEFYDLOG 26A – Deddfau Preifat y Senedd

### Cydsyniad Ei Fawrhydi a Dug Cernyw

26A.133Os yw Bil Preifat yn cynnwys darpariaeth, neu'n cael ei ddiwygio i gynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai, pe bai'r Bil Preifat yn Fil ar

gyfer Deddf Senedd y Deyrnas Unedig, yn gofyn cydsyniad Ei Fawrhydi neu gydsyniad Dug Cernyw, rhaid i'r Senedd beidio â thrafod y cwestiwn a ddylai'r Bil Preifat gael ei basio (neu ei gymeradwyo yn dilyn y Cyfnod Ailystyried) oni bai bod y cydsyniad hwnnw ar gyfer y ddarpariaeth honno wedi'i ddynodi gan aelod o'r llywodraeth mewn cyfarfod o'r Senedd.

## RHEOL SEFYDLOG 26B - Deddfau Hybrid y Senedd

### Cydsyniad Ei Fawrhydi a Dug Cernyw

26B.128 Os yw Bil Hybrid yn cynnwys darpariaeth, neu'n cael ei ddiwygio i gynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai, pe bai'r Bil Hybrid yn Fil ar gyfer Deddf Senedd y Deyrnas Unedig, yn gofyn cydsyniad Ei Fawrhydi neu gydsyniad Dug Cernyw, rhaid i'r Senedd beidio â thrafod y cwestiwn a ddylai'r Bil Hybrid gael ei basio (neu ei gymeradwyo yn dilyn y Cyfnod Ailystyried) oni bai bod y cydsyniad hwnnw ar gyfer y ddarpariaeth honno wedi'i ddynodi gan aelod o'r llywodraeth mewn cyfarfod o'r Senedd.

## RHEOL SEFYDLOG 26C – Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

### Cydsyniad Ei Fawrhydi a Dug Cernyw

26C.88 Os yw Bil Cydgrynhoi yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth, neu'n cael ei ddiwygio i gynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai, pe bai'n cael ei chynnwys mewn Bil ar gyfer Deddf Senedd y Deyrnas Unedig, yn gofyn cydsyniad Ei Fawrhydi neu gydsyniad Dug Cernyw, rhaid i'r Senedd beidio â thrafod y cwestiwn a ddylai'r Bil Cydgrynhoi gael ei basio (neu ei gymeradwyo yn dilyn y Cyfnod Ailystyried) nes bod y cydsyniad hwnnw ar gyfer y ddarpariaeth honno wedi'i ddynodi gan aelod o'r llywodraeth mewn cyfarfod o'r Senedd.